# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020

Amser: 11.02 - 12.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6416

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS |
| Tystion: | Emlyn Dole, Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Andrew Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy<br>Cllr Hugh Evans, Independent Group Leader, CLLC |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trefn Ystyried - cytuno mewn egwyddor cyn trafodion Cyfnod 2

1.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y drefn ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Bil.

## 2 Ystyried gohebiaeth gan Archwilio Cymru ynghylch Adran 118 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Archwilio Cymru ynghylch Adran 118 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r cyfarfod.

3.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am ryw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

3.4 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Caroline Jones AS.

## 4 Ymchwiliad i effaith Covid-19: sesiwn dystiolaeth ar lywodraeth leol

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLlLC
- Y Cynghorydd Peter Fox, Arweinydd Grŵp Ceidwadol CLlLC
- Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd Grŵp Annibynnol CLlLC

- Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, CLlLC

4.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y tystion i wneud y canlynol:

- Darparu rhagor o wybodaeth am y gwersi y mae llywodraeth leol wedi'u dysgu wrth ymdrin â'r pandemig.
- Rhannu gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch ysgogiad economaidd yn ystod y pandemig.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i effaith COVID-19: trafod y dystiolaeth.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan Eitem 4.